# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 22 Hydref 2012** |
| Amser: | **14:00 – 17:21** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_22_10_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Anthony Barrett, Wales Audit Office Partner, Wales Audit Office**<br>**Matthew Mortlock, Performance Specialist. WAO**<br>**Mike Usher, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Mark Jones, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**<br>**Nicola Charles, Llywodraeth Cymru**<br>**Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)**<br>**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie Morgan ar gyfer eitem 2.

## 2. Rheoli grantiau yng Nghymru - Sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 'Reolaeth Llywodraeth Cymru o'i pherthynas â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan'

## 3.

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Cymru; Mike Usher, Cyfarwyddwr Grŵp - Archwilio Ariannol; Matthew Mortlock, Rheolwr Archwilio Perfformiad; a Mark Jones, Rheolwr Archwilio Ariannol.

2.2 Trafododd y Pwyllgor ganfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 4 a 7.

## 5. Rheoli Grantiau yng Nghymru - Ymdrin ag adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Reolaeth Llywodraeth Cymru o'i pherthynas â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan

4.1 Trafododd y Pwyllgor sut oedd am ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan'.

## 6. Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru): Cyfnod 1 - Tystiolaeth gan y Comisiwn Archwilio

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Martin Evans, Rheolwr Gyfarwyddwr Polisi Archwilio, y Comisiwn Archwilio.

## 7. Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru): Cyfnod 1 - Tystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jane Hutt, yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil a'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ; Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Gwasanaeth Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru; a Nicola Charles, Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cymru.

**Cam i'w gymryd:**

6.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn atodol i'r Pwyllgor ar:

- y rhyngberthynas rhwng Awdurdod yr Heddlu a'r Prif Gwnstabl;
- enghreifftiau o fodelau bwrdd goruchwyliol a gweithredol sy'n gweithredu mewn perthynas â swyddogaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru;
- sut, o dan y darpariaethau yn y Bil, y byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn parhau i allu rhoi trefniadau sicrhau ansawdd cadarn ar waith y mae'n ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn parhau i gydymffurfio â Safonau Archwilio Rhyngwladol.

## 8. Ystyried tystiolaeth ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Comisiwn Archwilio a'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ fel rhan o waith craffu ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yng Nghyfnod 1.

**Cam i'w gymryd:**

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am sicrwydd pellach ar y materion canlynol—

- y bydd telerau ac amodau staff Swyddfa Archwilio Cymru yn cael eu diogelu ar ôl trosglwyddo o gyflogaeth yr Archwilydd Cyffredinol i Swyddfa Archwilio Cymru newydd ac y bydd y trefniadau trosglwyddo yn cydymffurfio'n llwyr â thelerau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981;
- na fydd creu Swyddfa Archwilio Cymru newydd yn arwain at unrhyw rwymedigaethau treth ychwanegol;
- na fydd y trefniadau newydd yn gwahardd neu'n atal yr Archwilydd Cyffredinol rhag cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol.

## 9. Papurau i'w nodi

8.1 Nododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Arlwyo mewn Ysbytai a Maeth Cleifion.

8.2 Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ar y Fenter Twyll Genedlaethol.

8.3 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

8.4 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch y Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) a threfniadau Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981.

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.